# Ordinhad 24
# Penodi Staff er Anrhydedd a Staff Ymweld

**Corff Cymeradwyo:** y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 10 Hydref 2019

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt ar gyfer y polisi:** Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

**Statws y polisi:** Diwygiedig

**Fersiwn:** 3.0

**Dyddiad yr adolygiad diwethaf:** Hydref 2019

**Dyddiad adolygu:** Hydref 2021

**ORDINHAD 24**
**PENODI STAFF ER ANRHYDEDD A STAFF YMWELD**

1. Gall y Brifysgol benodi Athrawon, Darllenwyr a Darlithwyr er Anrhydedd neu Athrawon, Darllenwyr a Darlithwyr Ymweld. Gwneir pob penodiad am hyd at bum mlynedd, a bydd modd adnewyddu'r penodiad wedi hynny.

2. Meini Prawf

    1. Penodiadau er Anrhydedd

        1. Fel rheol fe ddylai'r unigolion a benodir er anrhydedd fod yn academyddion o fri o sefydliadau eraill a chanddynt gysylltiadau eisoes â'r Brifysgol, gan gynnwys cyswllt fel cyn-aelodau o'r staff, ac a fydd yn dal i wneud cyfraniad sylweddol yn rheolaidd i waith academaidd (dysgu a/neu ymchwil) y sefydliad.

        2. Gall teitlau er anrhydedd hefyd gael eu rhoi i unigolion y tu allan i'r Brifysgol nad ydynt yn academyddion er mwyn annog cysylltiadau â sectorau eraill, gan wahodd yr unigolion a benodir i roi cyngor fel y bo'n briodol ar brosiectau ymchwil ac i roi darlithoedd ar eu meysydd diddordeb penodol eu hunain.

    2. Penodiadau Ymweld

        1. Fel rheol fe ddylai'r unigolion a benodir i deitlau ymweld fod yn academyddion o fri o sefydliadau eraill nad oes ganddynt gysylltiadau eisoes â'r Brifysgol, ac a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol yn rheolaidd i waith academaidd (dysgu a/neu ymchwil) y sefydliad hwn.

        2. Gellir defnyddio teitlau ymweld hefyd er mwyn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i unigolion addas fel aelodau o gymuned academaidd y Brifysgol am gyfnodau penodol.

    3. Ni chyflwynir teitlau er Anrhydedd na theitlau Ymweld i staff sydd wedi ymddeol (yn unol â'r diffiniad yn Ordinhad 25) o gyflogaeth yn y Brifysgol. Mewn achosion o'r fath, teitl Emeritws a gyflwynir fel rheol.

3. Gweithdrefn

    1. Penodiadau i Swyddi Athro neu Ddarllenydd

        1. Bydd penodiadau o'r fath yn cael eu cymeradwyo gan yr Is-Ganghellor ac fe roddir adroddiad er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio.

        2. Dylai unrhyw gynigion gael eu cyflwyno gan un o'r Cyfadrannau drwy'r adran Adnoddau Dynol er mwyn i'r Is-Ganghellor eu hystyried, a dylent gynnwys *Curriculum Vitae* ar yr unigolyn yr argymhellir ei benodi, hyd arfaethedig cyfnod y penodiad, a datganiad clir am yr hyn a ddisgwylir gan yr unigolyn o ran yr hyn y byddai'n ei gyfrannu at waith y Gyfadran a/neu'r Brifysgol.

    2. Penodiadau Eraill

        1. Bydd yr holl benodiadau eraill yn cael eu cymeradwyo gan y Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol (yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth y Gyfadran y bydd y swydd er Anrhydedd neu'r swydd Ymweld yn gysylltiedig â hi).

2. Dylid rhoi gwybod am yr holl benodiadau a gymeradwywyd gan un o'r Dirprwy Is-Gangellorion i'r adran Adnoddau Dynol, ynghyd â *Curriculum Vitae* ar yr unigolyn yr argymhellir ei benodi, hyd arfaethedig cyfnod y penodiad, a datganiad clir am unrhyw ddisgwyliadau ar yr unigolyn o ran yr hyn y byddai'n ei gyfrannu at waith y Gyfadran.

4. <u>Cydnabyddiaeth ariannol</u>

Nid oes tâl yn gysylltiedig â phenodiadau er Anrhydedd na phenodiadau Ymweld. Serch hynny, gall y Gyfadran y penodir yr unigolyn iddi ad-dalu treuliau yn ôl â chyfraddau cymeradwy'r Brifysgol. Gall y Gyfadran dan sylw hefyd ddarparu adnoddau a gweithle mewn swyddfa.